Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
chair.office@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
cadeirydd.swyddfa@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 3962

04 Chwefror 2019

Mr N Ramsay
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

By email: SeneddPAC@Assembly.Wales

Annwyl Nick

Fel cadeirydd dros dro Cyfoeth Naturiol Cymru, hoffwn ychwanegu fy ystyriaeth a'm sicrwydd personol i chi wrth gymeradwyo adroddiad Grant Thornton i'ch pwyllgor.

Cychwynnais yn fy swydd ddechrau mis Tachwedd 2018 gan fynd ati'n gyflym i asesu'r heriau sy'n wynebu CNC. Yn amlwg, mae ystod eang o faterion i'w trafod ac rydym yn gweithio arnynt yn gyflym, ond mae coedwigaeth fasnachol a materion cysylltiedig ar frig ein rhestr o faterion sydd angen sylw. Rwyf yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i hyn ac rwyf wedi sefydlu grŵp goruchwylio y Bwrdd i gynghori, arwain, craffu a herio'r prosiect sy'n rheoli ein cynllun gweithredu.

Pan ddechreuodd ein Prif Weithredwr ar ei swydd ac wynebu'r her amodi cyfrifon oedd yn deillio o'r materion gwerthu pren rwy'n credu ei bod wedi gwneud y penderfyniad cywir wrth ofyn i Grant Thornton gynnal adolygiad llawn.

Mae'r adroddiad hwn, sy'n amhleserus i'w ddarllen, yn rhoi sicrwydd i mi ein bod yn mynd at wraidd y materion hyn. Rwy'n credu erbyn hyn ein bod yn gweld y darlun cyfan ac y gallwn weithredu'n bendant arno a hynny'n gyflym, i sicrhau na fydd hyn byth yn digwydd eto yn CNC.

Mae'n hanfodol bwysig bod Bwrdd CNC yn gwbl fodlon fod yr holl faterion a amlygwyd yn yr adroddiad yn cael eu harchwilio yng nghyd-destun gweithrediadau'r sefydliad ehangach, ac nid coedwigaeth yn unig. Rydym hefyd yn rhoi blaenoriaeth uchel i hynny.

Mae ein cynllun gweithredu yn sicrhau bod newidiadau a gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud. Mae cyflawni newid ar raddfa o'r fath yn hanfodol wrth sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Rydym yn unioni pethau, rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r camau a byddwn yn agored ynglŷn â'n cynnydd.

Rwyf wedi cadeirio nifer o sefydliadau mewn sefyllfaoedd heriol. Gydag arweinyddiaeth glir ar lefelau Bwrdd a Gweithredol, tîm o bobl sy'n fodlon llwyddo a chyda phenderfyniad di-ildio, rwy'n hyderus y gallwn roi'r diwygiadau ar waith yn gyflym er mwyn sicrhau llwyddiant CNC yn y dyfodol wrth wasanaethu pobl Cymru.

Rydym hefyd yn ailsefydlu ein perthynas â'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru ac rwy'n edrych tuag at yr holl bartneriaid hynny i gydweithio â ni i drawsnewid ein cyfres o gysylltiadau busnes.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod ar 11 Chwefror ac i roi sicrwydd pellach i chi ar y materion sy’n cael eu codi yn yr adroddiad hwn a sut yr ydym yn mynd i'r afael â hwy.

Yn gywir

Syr David Henshaw
Cadeirydd Dros Dro, CNC